**Ymateb Llais i'r ymgynghoriad ar Asesu, Polisi a Gweithdrefn Lleihau Clymau**

*8fed* Hydref 2025

- Mae Llais yn gorff statudol annibynnol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryf i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

- Rydym yn darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion, gan gefnogi pobl i godi pryder neu gŵyn am wasanaethau'r GIG neu ofal cymdeithasol. Mae ein staff eiriolaeth cwynion hyfforddedig ac ymroddedig yn darparu cymorth annibynnol, cyfrinachol a rhad ac am ddim.

- Wrth ddatblygu ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi ymgynghori â'n timau ymgysylltu â'r cyhoedd, a'n gwasanaeth eiriolaeth cwynion.

- Nid ydym yn ymrwymo i safbwynt ar agweddau technegol a chlinigol y dogfennau drafft. Nid ein rôl ni yw gwneud sylwadau ar arferion meddygol manwl.

- Fodd bynnag, rydym yn croesawu cyflwyno unrhyw bolisi sy'n helpu i leihau risg ac yn cynyddu diogelwch cleifion ac yn nodi cynnwys cynlluniau hyfforddi staff a gofynion isafswm hyfforddi ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys staff dros dro. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pawb yn deall ac yn cymhwyso rheoli risg clymu yn gyson.

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

- Rydym yn falch o weld bod cyfeiriad at gyd-gynhyrchu yn cael ei wneud, gydag ymrwymiad amlinellol i gyd-ddylunio ac arferion sy'n berson-ganolog ac sy'n rhoi llais, dewis a rheolaeth i bobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr dros eu gofal.

- Yn ystod ein hymweliadau â lleoliadau iechyd meddwl yng Nghymru, dywedodd pobl a'u teuluoedd wrthym yr hoffent gymryd fwy o ran mewn penderfyniadau am eu gofal. Maen nhw hefyd eisiau ffyrdd diogel o bersonoli eu hamgylchedd, fel eu bod nhw'n teimlo'n llai clinigol ac yn fwy cyfforddus.

- Rydym hefyd yn croesawu'r ymdrech am ddull cyson 'Gymru Gyfan' gan ein bod yn aml yn clywed pryderon am wahaniaethau yn y ffordd y mae gwasanaethau a pholisïau'n cael eu cymhwyso ledled y wlad.

- Hoffem weld mwy o fanylion ynghylch sut y bydd byrddau iechyd yn monitro gweithdrefnau a chanlyniadau ledled Cymru.

- Bydd yn bwysig sicrhau bod yr un dull yn cael ei ddilyn, ac yn dal i fod yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion pobl unigol mewn ffordd sy'n berson-ganolog.

- Edrychwn ymlaen at weithio gyda darparwyr gwasanaethau i wneud yn siŵr bod pobl, teuluoedd a gofalwyr yn aros wrth wraidd penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gofal a'u diogelwch.